**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 431**
**24 Hydref, 2019 - S4C, Caernarfon**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) |
| Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**Gwahoddedigion:** Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg)

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C yng Nghaernarfon.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 430 a gynhaliwyd ar 26ain o Fedi, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 430 a gynhaliwyd ar y 26ain o Fedi. Awgrymwyd nifer o fân newidiadau i eiriad y cofnodion.

Gan ymgorffori'r newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 430**

Archif a'r Llyfrgell Genedlaethol – nodwyd bod y gwaith wedi dechrau.

**[Crynodeb:** Diweddarwyd yr aelodau ar werthiant un buddsoddiad masnachol.]

Prosiect Technoleg Iaith – nodwyd bod cais wedi'i chyflwyno gan Brifysgol Abertawe.

Amserlen cyflwyno Clic dros blatfformau – roedd hwn ar y gweill.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth. Roedd nifer o'r pwyntiau wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf a byddai'r ysgrifennydd yn diweddaru'r gofrestr erbyn y cyfarfod nesaf.

5. **Diweddariad Materion Personél**

**[Crynodeb:** Dywedodd CW taw pwrpas yr arolwg staff ym mis Medi 2018 oedd gwella'r gweithle. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y Sefydliad, y Rheolwyr, y Tîm Rheoli, Hyfforddiant, Cyfathrebu, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg i staff yn cyfarfod strategol 'cwrdd i ffwrdd' i holl staff yn yr Egin ym mis Tachwedd 2018. Yn ogystal cynhaliwyd grwpiau trafod ar destunau a ddeilliodd o ganlyniadau'r arolwg staff. Amlinellodd CW y newidiadau a datblygiadau ers arolwg 2018 gan gynnwys y gwaith o wella cyfathrebu mewnol a dechrau creu cynllun hyfforddiant.

Nodwyd bod arolwg staff 2019 wedi cychwyn yr wythnos hynny a byddai'n ddiddorol gweld y canlyniadau maes o law.

Esboniodd OE am y penderfyniad i oedi'r gwaith ar greu gwerthoedd newydd tan i'r cyd-leoli digwydd yn Sgwâr Canolog. Roedd cyfle hefyd ymglymu staff mewn i'r gwaith ail frandio S4C. Byddai sesiwn strategol ar gyfer holl staff S4C unwaith i gyd-leoli digwydd. Byddai'n bwysig i'r Bwrdd ystyried a thrafod y gwaith ar werthoedd newydd S4C a'r ail frandio maes o law.

Roedd cychwyn y cynllun Prentisiaeth yn ddatblygiad i'w groesawu. Roedd tri phrentis wedi cychwyn yn S4C allan o 18 ymgeisydd. Roedd OE yn awyddus i gael trafodaeth bellach gyda'r sector ynghylch prentisiaethau.]

Diolchodd y Bwrdd i CW am y diweddariad. Gan fod gymaint o ddatblygiadau ar y gweill, gofynnwyd i CW dynnu cynllun adnoddau dynol at ei gilydd er mwyn dogfennu pob dim mewn un lle.

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

7. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, gan gynnwys y materion isod.

**Y Mesur**

Cyflwynodd EM grynodeb o Fesur drafft S4C 2019.

**[Crynodeb:** Roedd cytundeb ar y dibenion a remit gwasanaeth cyhoeddus S4C, ac roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â phwerau masnachol. Nodwyd nad oedd amserlen ar gyfer pasio'r Mesur mewn i ddeddfwriaeth ar hyn o bryd ond

roedd DCMS yn awyddus i gael y Mesur mewn ffurf orffenedig yn barod i achub ar unrhyw gyfle i'w gyflwyno yn 2020.]

**S4C Originals & Walter Presents**

Cyflwynodd AR ddiweddariad gan gynnwys lansiad brand newydd S4C Originals yn MIPCOM 2019. Roedd y gwesteion yn cynnwys dosbarthwyr rhyngwladol, aelodau o'r EBU, cwmnïau cynhyrchu, partneriaid o TG4 ac MG Alba a'r Wasg.

Datblygiad arall oedd partneriaeth newydd rhwng S4C a Walter Presents, gyda S4C yn dangos detholiad o ddramâu teledu gorau'r cyfandir, sydd wedi eu dewis gan y curadur drama Eidalaidd, Walter Iuzzolino.

**[Crynodeb:** Bydd y gwasanaeth newydd yn dangos dramâu mewn sawl iaith wahanol gydag is-deitlau Cymraeg ar S4C ac S4C Clic heb unrhyw gostau tanysgrifio.]

**Materion Eraill**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amrywiaeth ar sgrin ac os oedd S4C yn ddigon uchelgeisiol. Atgoffwyd y Bwrdd am y gwaith o baratoi papur ar amrywiaeth cynnwys S4C (ar ôl gwaith dadansoddi / mesur amrywiaeth cyfredol) gydag opsiynau o ran uchelgais/targedau posib.

Nododd y Bwrdd ymateb S4C i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad ynglŷn ag amserlen nos Fawrth 24 Medi.

Dywedodd OE fod y gwaith o ran achosion busnes i'r Bwrdd Masnachol yn parhau gan gynnwys sicrhau cyngor annibynnol fel rhan o'r broses.

8. **Cymeradwyo asesiad perfformiad Strategaeth Cynnwys S4C**

**[Crynodeb:** Adroddodd AR am drafodaeth y Pwyllgor Cynnwys am berfformiad Awst a Medi. Trafodwyd dulliau mesur BARB, y strategaeth marchnata a hyrwyddo a'r newidiadau i'r amserlen o Chwefror 2020. Amlinellodd AR peth o'r cynnwys newydd oedd ar y gael yn yr Hydref a'r cyfresi sy'n dychwelyd. Cyfeiriwyd at yr her ariannol presennol lle roedd cynnydd mewn costau cynhyrchu tra bod y gyllideb cynnwys wedi aros yr un peth.]

9. **Adroddiad Cynnwys, Dadansoddi a Chyfathrebu Chwarter 2, 2019-20**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd GW Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 2 2019/20. Roedd yn cynnwys asesiad o gost hyrwyddo fesul Gwyliwr pan yn briodol. Roedd y prif ymgyrchoedd yn cynnwys Pili Pala, Y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod a phêl-droed rhyngwladol.]

10. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd RW adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys. Roedd am sicrhau defnyddioldeb y cyfarfodydd i'r swyddogion.]

11. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd gyda'r Archwilwyr Mewnol newydd, a chafwyd diweddariad gan Catrin Whitmore ar faterion personél. Roedd y Cadeirydd yn cwrdd gyda Shirley Garrood, cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r BBC yr wythnos ganlynol. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd gyda'r BBC ar 5 Tachwedd i drafod y prosiect cydleoli.

12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion**

**[Crynodeb:** Nododd yr Ysgrifennydd fod y Pwyllgor wedi ystyried un gŵyn yn ddiweddar a bod ymateb ffurfiol wedi'i danfon at y cwynwr.]

13. **Comisiynydd y Gymraeg**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gomisiynydd y Gymraeg. Diolchodd y Comisiynydd am y gwahoddiad a'r cyfle i siarad am ei weledigaeth ar ôl cychwyn yn y swydd ym mis Ebrill 2019.

**[Crynodeb:** Y prif ffocws oedd pontio'r bwlch sydd yna rhwng addysg a'r byd gwaith er mwyn cynyddu'r defnydd dyddiol o'r iaith Gymraeg. Roedd yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa yn Iwerddon lle mae yna 1.76 miliwn o bobl yn medru siarad Gwyddeleg, ond llai na 0.5% o'r rheiny yn ei siarad bob dydd. Roedd yn awyddus i ganolbwyntio ar gynlluniau wnaiff arwain at gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Roedd eisiau gweithio gyda busnesau, elusennau a sefydliadau i sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael y system addysg a'r bobl sy'n dysgu'r Gymraeg yn gallu defnyddio'u sgiliau dwyieithrwydd.

Roedd cynllun strategol yn bodoli eisoes hyd at 2021 ac roedd y Comisiynydd yn awyddus i ganolbwyntio ar hybu a hyrwyddo, er bod rheoleiddio yn rhan bwysig o'r gwaith. Roedd yn awyddus i gryfhau partneriaethau gyda chyrff eraill sydd yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd yn bwysig cydweithio a phlethu gwaith lle'n bosib.

Roedd Swyddogion y Comisiynydd wedi cwrdd gyda S4C yn ddiweddar i drafod cydweithio ar brosiectau o gwmpas cynnwys S4C.]

Esboniodd OE y gwaith ar brentisiaethau a'r gobaith o sicrhau mwy o amrywiaeth yn y sector. Roedd S4C newydd lansio cynllun prentisiaid newydd sbon ac wedi croesawu tri phrentis newydd i weithio yn Yr Egin. Cytunodd y Comisiynydd bod gwella amrywiaeth a chydraddoldeb yn bwysig. Dywedodd OE taw bwriad S4C oedd partneriaethu gyda chyrff sydd eisoes yn cysylltu gyda chymunedau difreintiedig i ganolbwyntio ar symudedd cymdeithasol. Roedd OE wedi cwrdd â'r Coleg Brenhinol, Opera Cenedlaethol Cymru a'r Cyngor Llyfrau a'r bwriad oedd cael pawb at ei gilydd i drafod ffyrdd o gynllunio'n strategol ar y cyd.

**[Crynodeb:** Nododd OE eu bod yn cwrdd yn gyson gyda Chymdeithas yr Iaith a Dyfodol. Y dasg bwysig i S4C oedd sicrhau fod yr iaith a ddefnyddir o fewn rhaglenni penodol yn safonol a graenus, tra ar yr un pryd yn glir ac yn hygyrch ar gyfer cynulleidfa eang ac ystod o siaradwyr Cymraeg o bob lefel rhugldder.]

Datblygiad pwysig yn 2020 byddai'r Daith Iaith. Roedd AR yn awyddus bod pobl yn ymwneud gyda'r cynnwys ac o ganlyniad yn defnyddio'r iaith. Roedd

nifer sylweddol o bobl yn eu tridegau a phedwardegau oedd wedi derbyn addysg Gymraeg ond efallai heb ddefnyddio'r iaith ers gadael yr ysgol. Roedd angen rhywsut ceisio cyrraedd a helpu pobl ail-gydio yn yr iaith. Byddai Hansh hefyd yn rhan bwysig o'r ymgyrch iaith yn 2020. Roedd angen dathlu bod Cymru yn genedl unigryw oedd yn siarad iaith nag oedd neb arall yn siarad.

Nododd OE byddai S4C yn dathlu 40 mlynedd yn 2022 a bod hyn yn gyfle i gynnal trafodaeth gyhoeddus o ran pwrpas S4C yn y dyfodol.

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

15. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith diwygiedig ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

16. **Unrhyw Fater Arall**

Nododd yr ysgrifennydd fod Ofcom wedi cyhoeddi dau adroddiad o ddiddordeb yr wythnos yma, gan gynnwys adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC.

Nodwyd hefyd y byddai Bwrdd Ofcom yng Nghaerdydd ar 19 Tachwedd a byddai swyddogion S4C yn mynychu'r digwyddiad.